**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedleathol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/HG

18 Awst 2017

Annwyl Huw

**Diwygio'r Cynulliad: anghymhwyso, difenwi, dirmyg llys a braint y Cynulliad**

Fel y gwyddoch, mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad bennu ei drefniadau mewnol, gweithredol ac etholiadol ei hun. Mae'r Comisiwn yn arwain gwaith i archwilio sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn i sicrhau bod y sefydliad hwn yn ddeddfwrfa gryfach, fwy hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Yn gynharach eleni, cyhoeddais fod y Comisiwn yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn 2018 i newid enw'r Cynulliad. Rwyf hefyd wedi sefydlu Panel Arbenigol i ystyried materion sy'n ymwneud â maint a threfniadau etholiadol y Cynulliad. Ar ôl i'r Panel gyflwyno ei adroddiad, bydd y Comisiwn yn ystyried cwmpas llawn y rhaglen ddiwygio a'r cynigion deddfwriaethol yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno.

Fel rhan o'r gwaith cwmpasu hwn, mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried a oes angen diwygio unrhyw un o adrannau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â threfniadau mewnol y Cynulliad y bydd Deddf Cymru 2017 yn dod â hwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n rhan o gylch gwaith eich Pwyllgor, ac y byddwn yn croesawu eich sylwadau arnynt.

Anghymhwyso

Mae adrannau 16 i 19 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Fel rhan o'r gwaith

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

cwmpasu, mae fy swyddogion yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad 2014 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y Pedwerydd Cynulliad ar anghymhwyso. Byddaf yn ysgrifennu ymhellach yn yr hydref i geisio barn eich Pwyllgor ar y materion hyn.

Difenwi, dirmyg llys a braint y Cynulliad

Mae adrannau 42 a 43 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn darparu amddiffyniadau i Aelodau'r Cynulliad rhag trafodion yn eu herbyn ar sail difenwi ac, mewn rhai amgylchiadau, dirmyg llys. Mae'r amddiffyniad a gynigir i'r Aelodau'n gulach na'r hyn a gynigir gan yr egwyddor o fraint seneddol sy'n gweithredu yn San Steffan, ond yn ehangach na'r amddiffyniad statudol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.


Byddwch yn ymwybodol nad yw braint y Cynulliad yn fater a gedwir o dan Ddeddf Cymru 2017. Felly, mewn egwyddor gallai'r Cynulliad roi breintiau newydd i'w hun, yn amodol ar y materion eraill a gedwir yn ôl a'r profion cymhwysedd a allai fod yn berthnasol.

Byddwn yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor ar y canlynol:

- y darpariaethau yn adrannau 42 a 43, yn enwedig a fyddai unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn ddymunol fel rhan o waith diwygio'r Comisiwn;
- a fyddai unrhyw ddiwygiadau eraill i freintiau'r Cynulliad yn ddymunol, ac, os felly, a allai deddfwriaeth ddiwygio'r Cynulliad fod yn gyfrwng deddfwriaethol priodol.

Er mwyn sicrhau y gall sylwadau eich Pwyllgor lywio'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, byddai'n ddefnyddiol derbyn eich sylwadau ar unrhyw faterion a allai fod angen newid deddfwriaethol arnynt fel rhan o'r rhaglen ddiwygio erbyn diwedd 2017.

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd